Ymweliadau gwaith maes – gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaeth

Wrth ymweld â lleoliadau gwasanaeth, gall rhaglen ar gyfer yr ymweliad fod yn fuddiol. Enghraifft o raglen o'r fath fyddai :

- cyfarfod byr â'r rheolwr a gweld y safle *15 munud*
- golwg ar y prosesau *30 munud*
- cyfarfod â'r staff (heb gynnwys y rheolwr) *30 munud*
- cyfarfod â'r rheolwr *30 munud*
- cyfarfodydd â'r defnyddwyr gwasanaeth *30 munud*.

Hwyrach y bydd pob lleoliad gwasanaeth yn dymuno darparu gwybodaeth gefndirol ymlaen llaw (ee amlinelliad o'u gwaith, taflenni gwybodaeth, strwythur staffio, cyllideb, etc.), dadansoddiad SWOT, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau arolygu diweddar. Gofynnir i chi gyflwyno'r deunydd hwn i'r tîm cydadolygu o leiaf ddau ddiwrnod cyn yr ymweliad.

Dylid hysbysu'r defnyddwyr gwasanaeth ymlaen llaw ynglŷn â natur a phwrpas yr ymweliad. Dylai fod modd iddynt gael gweld copïau o'r daflen gyffredinol ynghylch cydadolygiadau a'r nodyn briffio mwy manwl ar gyfer rhai mewn lleoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen o ymweliadau.

Gwybodaeth

Mae gwybodaeth gywir ac eglur ynglŷn â'r adolygiad yn hanfodol. Dylid osgoi unrhyw bryder neu ansicrwydd diangen. Dylid talu sylw arbennig i'r pwyntiau canlynol.

- Gwnewch yn siŵr fod pawb yn deall natur a ffocws yr adolygiad a pham eu bod yn cael eu gweld.

- Dylid darparu copi o'r taflenni cydadolygu perthnasol i bawb, ynghyd â gwybodaeth ynghylch y codau ymddygiad ar gyfer adolygyddion ac aseswyr lleyg;
- Gofalwch eu bod yn gwybod enw(au) yr adolygydd(ion) sy'n ymweld.
- Fel rheol, mae amserlen gwaith maes adolygu yn dynn, ac felly mae'n bwysig i bawb fod yn brydlon, gan gynnwys y tîm cydadolygu. Gall oedi effeithio ar niferoedd.

Meysydd archwilio

Mae'r ymweliadau gwaith maes yn ffordd hanfodol o gasglu tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd archwilio y dyfernir yn eu cylch. Amlinellir y meysydd hyn yn y Llawlyfr Cydadolygu, a bydd yr adolygyddion yn canolbwyntio arnynt wrth ofyn cwestiynau. Byddwn yn edrych yn benodol ar ddau fater allweddol:

- Pa mor dda mae gwasanaethau cymdeithasol yn bodloni anghenion ar hyn o bryd?
- Beth yw gallu'r awdurdod lleol i gyflwyno gwelliannau o ran ansawdd y gwasanaethau hynny?

Byddwn wedi paratoi rhai cwestiynau, yn rhannol er mwyn gwirio peth o'r wybodaeth rydym wedi'i derbyn eisoes. Yn ogystal â gofyn cwestiynau, rydym am wneud yn siŵr bod staff yn cael cyfle i siarad am y materion sy'n eu pryderu ac i rannu eu profiadau â ni. Mae gennym ddiddordeb yn yr hyn sy'n mynd yn dda yn ogystal â'r agweddau sydd angen eu gwella.